Helfa'r Coed Hynafol

CA3 Cymraeg

Llafaredd/Darllen/ Ysgrifennu/Cyfryngau:

ARCHWILIO HELFA'R COED HYNAFOL

Gweithgaredd 4: TAFLEN YR ATHRO

Nodau'r sesiwn

I ddisgyblion ddarllen testunau newyddiadurol, amlfodd, dehongli, esbonio a disgrifio gwybodaeth yn eglur ac ysgrifennu ar gyfer cyd-destunau y tu hwnt i'r dosbarth drwy archwilio ac adrodd ar nodau Helfa'r Coed Hynafol.

Cyflwyniad

Os yn bosibl dylai'r disgyblion fod yn gyfarwydd â'r enwau Cymraeg am goed yn yr ardal (gweler isod am adnodd y Field Studies Council. Yna rhowch bum munud i'r disgyblion gael archwilio **www.ancient-tree-hunt.org.uk/project/hunt/** cliciwch ar y fersiwn Cymraeg).

Prif ran/datblygiad

Dylai'r athro egluro y bydd angen i ddisgyblion ysgrifennu neu gyflwyno adroddiad cyfryngol am Helfa'r Coed Hynafol, i'w gyhoeddi naill ai ar wefan yr ysgol, ym mhapur newydd/cylchgrawn yr ysgol neu bapur newydd lleol – neu ar gyfer ei arddangos o fewn yr ysgol.

Rhowch daflen y disgybl (1) i'r disgyblion, sy'n cynnwys nifer o gwestiynau y gallent eu defnyddio i archwilio'r brif wefan a gwefannau cysylltiedig er mwyn casglu a dadansoddi ffeithiau perthnasol am Helfa'r Coed Hynafol.

Dylid gofalu gwahaniaethu lle bynnag bo hynny'n briodol gan gynnig cefnogaeth i'r disgyblion o ran sut i gasglu a chofnodi gwybodaeth a phenderfynu ar hyd a ffurf eu hadroddiadau. Gellir ysgrifennu'r adroddiad fel erthygl i gylchgrawn neu bapur newydd. Gallai fod ar lafar a/neu wedi'i dapio ar gyfer sioe radio, neu ar fideo ar gyfer y teledu.

Gweithgaredd estynedig

Rhoddir taflen y disgyblion (2) i'r disgyblion hefyd: sef holiadur y dylent ei ddefnyddio i gynnal 'Barn y Bobl': casglu safbwyntiau aelodau'r teulu a ffrindiau i'w cynnwys, o bosibl, o fewn eu hadroddiad.

Cysylltiadau cwricwlaidd: Gofynion y CC Cymraeg 2008:

Llafaredd

Sgiliau: 3,4
Ystod: 1,3,6

Darllen

Sgiliau: 3,6
Ystod: 2,3

Ysgrifennu

Sgiliau: 1,5,8,9
Ystod: 1,2,3,4

Cysylltiadau Eraill:

Datblygu Sgiliau Cyfathrebu
Datblygu Sgiliau Meddwl
ADC&DF
ABCh

Offer angenrheidiol

Mynediad i'r rhyngrwyd, yn enwedig i dudalennau'r wefan sy'n ymwneud â Helfa'r Coed Hynafol **www.ancient-tree-hunt.org.uk** (fersiwn Cymraeg)

Adnoddau ar gyfer ysgrifennu'r adroddiad; bydd yr hyn sydd ar gael yn amrywio o ysgol i ysgol, e.e, Microsoft Word, rhaglen Cyhoeddi Pen Desg, recordydd tâp neu gyfleusterau fideo.

Taflen y Disgybl (1) D.S. Pe bai modd archebu copïau o'r poster enwau coed o'r wefan ganlynol: **http://www.field-studies-council.org/publications/pubsinfo.aspx?Code=OP81** byddai'n helpu'r disgyblion i ddod yn gyfarwydd ag enwau Cymraeg y coed yn yr ardal.

Taflen y Disgybl (2)

3720/06/08

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

Helfa'r Coed Hynafol

CA3 Cymraeg

Llafaredd/Darllen/ Ysgrifennu/Cyfryngau:

ARCHWILIO HELFA'R COED HYNAFOL

Gweithgaredd 4: TAFLEN DISGYBL (1)

Cwestiynau a symbyliadau i greu adroddiad ar Helfa'r Coed Hynafol

1. Ble rydych chi am gyhoeddi eich adroddiad, a phwy gredwch chi sy'n debygol o ddarllen eich adroddiad? Meddyliwch am arddull eich ysgrifennu a'ch darluniau, gan ystyried pwy fydd y gynulleidfa.
2. Chwiliwch am y ffeithiau allweddol am Helfa'r Coed Hynafol - lluniwch frawddeg neu baragraff byr ar bob un o'r cwestiynau/symbyliadau hyn:
   a) beth yw ei nodau a'i phwrpas?
   b) pa gyrff sydd wrth gefn Helfa'r Coed Hynafol?
   c) sut mae'r cyrff hyn yn cael eu hariannu?
   d) sut gall pobl gymryd rhan gyda Helfa'r Coed Hynafol?
   e) ers pryd y mae'r project wedi bod mewn bodolaeth?
   f) pa fath o bobl sy'n rhan o'r project?
   g) sut gredwch chi y mae pobl yn cael budd o fod yn rhan o'r project? (Sut maen nhw'n elwa?)
   h) rhowch enghraifft o 'stori newyddion ddiweddar' o wefan Helfa'r Coed Hynafol.
3. Os ydych wedi cyfweld un neu fwy o aelodau'r teulu neu ffrindiau, gan ddefnyddio Taflen y Disgybl (2), crynhowch eu hymatebion ac ychwanegwch y paragraff hwn at eich nodiadau.
4. Rhowch eich holl wybodaeth at ei gilydd a phenderfynwch pa rannau fyddai'n ddefnyddiol i'ch adroddiad, o gofio bod yn rhaid sicrhau bod yr adroddiad yn ddiddorol i'r darllenwyr.
5. Penderfynwch a oes angen darlun enghreifftiol (neu fwy nag un) arnoch, pa fath o ddarlun fyddai'n effeithiol, ac o ble gallech chi gael un. Gofynnwch i'ch athro am gyngor, os oes angen.
6. Rhowch sglein ar eich adroddiad terfynol trwy ddarllen trwyddo'n ofalus – gallwch wneud newidiadau, torri darnau allan, neu ychwanegu mwy o fanylion.

3720/06/08

These sheets have been designed to be shared. Feel free to photocopy and provide to colleagues.
The Woodland Trust is the UK's leading woodland conservation charity dedicated to the protection of our native woodland heritage. **www.woodlandtrust.org.uk** **www.AncientTreeHunt.org.uk**

COED CADW WOODLAND TRUST

Helfa'r Coed Hynafol

CA3 Cymraeg

Llafaredd/Darllen/ Ysgrifennu/Cyfryngau:

ARCHWILIO HELFA'R COED HYNAFOL

Gweithgaredd 4: TAFLEN DISGYBL (2)

Cwestiynau i'w gofyn i'ch teulu, ffrindiau neu i ddisgyblion eraill.

Ar ôl gofyn pob cwestiwn, defnyddiwch y gofod islaw i ysgrifennu eu hatebion.

Enw'r person sy'n cael ei gyfweld:

.....

1. Beth rydych chi'n ei feddwl o goed yn gyffredinol?

.....

2. A oes gennych hoff fath o goeden? Os oes, pa fath, a pham?

.....

.....

.....

3. A oes gennych hoff goeden yn eich ardal? Os oes, ble mae'r goeden?

.....

4. Ydych chi wedi clywed am *Coed Cadw*? Beth gredwch chi y maent yn ei wneud?

.....

.....

5. Mae gan Coed Cadw broject o'r enw *Helfa'r Coed Hynafol*, sy'n ceisio diogelu coed hynafol yn Ynysoedd Prydain. A gredwch chi fod hwn yn broject gwerth chweil? (Os ydych chi'n credu hynny, pam? Os nad ydych yn credu hynny, pam?)

.....

.....

.....

.....

The Tree Register · ancient tree forum · Heritage Lottery Funded · Esmée Fairbairn Foundation · Scottish Natural Heritage · WCVA

These sheets have been designed to be shared. Feel free to photocopy and provide to colleagues.
The Woodland Trust is the UK's leading woodland conservation charity dedicated to the protection of our native woodland heritage. **www.woodlandtrust.org.uk** **www.AncientTreeHunt.org.uk**

COED CADW WOODLAND TRUST

3720/06/08